



Adroddiad Arolygu

Claire Grasham

Aberystwyth

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/03/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Y gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwarchodwr Plant
Lleoedd cofrestredig	10
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	[18 Ionawr 2018]
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	[Ydy]
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

<u>Llesiant</u>	Rhagorol
<u>Gofal a Datblygiad</u>	Rhagorol
<u>Yr Amgylchedd</u>	Da
<u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u>	Da

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus iawn yng nghartref y gwarchodwr plant. Maent wedi setlo yn eithriadol o dda a chânt eu hannog i ryngweithio'n hyderus â'i gilydd. Mae'r plant y mae'r gwarchodwr plant yn gofalu amdanynt yn gallu gwneud dewisiadau effeithiol a chryf iawn am yr hyn y maent am ei wneud. Maent yn gwneud ffrindiau da â'i gilydd ac yn dangos hoffter amlwg tuag at y gwarchodwr plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn gymwys iawn. Mae ganddi ddealltwriaeth effeithiol iawn o sut i gadw'r plant yn ddiogel a sut i hybu eu hiechyd a'u llesiant. Mae'n rheoli'r holl ryngweithio mewn ffordd gadarnhaol ac yn rheoli ymddygiad yn eithriadol o dda. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau i hyrwyddo datblygiad y plant ac yn annog eu chwilfrydedd naturiol fel rhan o'r gweithgareddau a gynllunnir.

Mae gan y gwarchodwr plant systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cynnig ysgogiadau cadarnhaol i'r plant. Mae amrywiaeth werthfawr o adnoddau a chyfarpar sy'n briodol o ran oedran ar gael i'r plant mewn ffordd bwrpasol yn ardal dan do'r lleoliad.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg lleoliad llwyddiannus, gwerthfawr a threfnus. Mae'n cydymffurfio â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a bron bob amser yn mynd y tu hwnt iddynt. Mae gan y gwarchodwr plant systemau gwerth chweil ar gyfer gwerthuso a gwella'r lleoliad. Mae wedi meithrin partneriaethau pwrpasol a gwerth chweil â'r rhieni, sy'n fodlon iawn ar y gofal y mae eu plant yn ei gael.

Mae'r plant yn hapus iawn ac wedi setlo, ac maent yn mwynhau'r amser gwych y maent yn ei dreulio gyda'r gwarchodwr plant. Mae ganddynt lais cryf iawn ac maent yn mynegi eu hunain a'u gofynion yn hynod o effeithiol. Mae'r plant yn hyderus wrth gyfathrebu ac yn rhannu eu teimladau, eu hoff bethau a'u cas bethau yn hynod o effeithiol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys, ymateb i awgrymiadau'r gwarchodwr plant a phan fyddant am gael byrbryd neu ddioid. Gallant gyfleu eu dewisiadau'n gryf yn ystod amser byrbryd a phan fyddant am gael gafael ar adnoddau o'r ardal storio hygyrch. Maent yn cynnwys y gwarchodwr plant yn eu gweithgareddau yn aml ac yn awyddus i rannu eu profiadau. Maent yn cael cyfleoedd effeithiol iawn i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Er enghraifft, maent yn dewis eu byrbrydau, y teganau maent am chwarae â nhw a sut i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent wedi setlo'n eithriadol o dda ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r plant yn y lleoliad yn cael cysur a chymorth effeithiol o ansawdd uchel iawn gan warchodwr plant magwrus sy'n eu hadnabod yn dda iawn. Mae cydberthnasau emosiynol cadarn iawn i'w gweld rhyngddynt a'r gwarchodwr plant ac maent yn mynd ati'n rheolaidd i gael sicrwydd heb gael eu hannog i wneud hynny. Er enghraifft, caiff plant newydd gysur gan y gwarchodwr plant mewn ffordd bwyllog, llawn sicrwydd a chânt eu cefnogi'n effeithiol pan fyddant wedi cynhyrfu. Mae'r plant yn gyfarwydd â'u harferion ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o ansawdd uchel a gaiff eu paratoi gan y gwarchodwr plant. Er enghraifft, glanhau'r teganau deinosoriaid â'r brwshys dannedd a dŵr a sebon.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson gadarnhaol a bob amser yn ddigynnwrf ac yn hamddenol iawn. Mae'r plant yn gwenu ac yn chwerthin wrth iddynt fwynhau defnyddio adnoddau fel y tebotiau mewn ffyrdd llawn dychymyg ac wrth wneud jig-so syml. Cânt eu trin yn eithriadol o dda bob amser, dangosir parch amlwg tuag atynt a chaiff eu barn bob amser ei hystyried. Er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant yn gofyn beth hoffai'r plant ei fwyta fel byrbryd a pha weithgaredd yr hoffent gymryd rhan ynddo, gan gynnwys gwyllo fideos byr ar y teledu.

Mae'r plant yn hyderus wrth ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu yn fawr iawn Gall y plant gynnal eu diddordeb mewn gweithgareddau am gyfnodau hir o amser, gan ddatblygu eu chwarae'n barhaus. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys gweithgaredd yn ymwneud â dŵr a glanhau teganau deinosoriaid. Datblygwyd hyn ymhellach wrth i'r plant greu pyllau dŵr ar y mat a neidio yn y dŵr. Roedd y plant yn cael eu hannog i wlychu ac i fwynhau eu hunain. Roedd y gwarchodwr plant yn eu canmol, ac roeddent yn mwynhau'r cyfle a roddwyd iddynt yn fawr. Mae'r plant yn archwilio eu hamgylchedd dan do yn ddiogel.

Mae'r plant yn cael eu cefnogi a'u hannog yn dda i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn defnyddio'r ystafell ymolchi ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol o dan oruchwyliaeth. Mae'r plant yn eistedd yn bwrpasol yn ystod prydau bwyd a gallant fwydo eu hunain yn effeithiol. Maent yn ymateb yn dda pan gânt eu hannog i wneud penderfyniadau am y gweithgareddau i gymryd rhan ynddynt yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth helaeth o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae polisïau effeithiol o ansawdd uchel ar waith. Mae'r gwarchodwr plant wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu ac mae ganddi weithdrefnau cryf iawn ar waith i ddiogelu'r plant. Mae ganddi dystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol. Mae systemau effeithiol iawn ar waith i gofnodi damweiniau a digwyddiadau ac i roi meddyginiaethau. Caiff arferion hylendid helaeth eu rhoi ar waith, gan gynnwys arferion golchi dwylo a diheintio rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn golchi ac yn sychu eu dwylo'n rheolaidd cyn ac ar ôl amser byrbryd a gweithgareddau. Nid yw'r pryddau na'r byrbryddau yn cael eu darparu gan y gwarchodwr plant ar hyn o bryd, ond mae'n darparu ffrwythau ffres, yn ogystal â dŵr neu laeth i'w hyfed. Mae'r gwarchodwr plant yn gwbl ymwybodol o anghenion deietegol, anghenion iechyd ac anghenion unigol y plant, ac mae ganddi systemau effeithiol ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny pan fo angen.

Mae'r gwarchodwr plant yn gyfeillgar iawn ac yn eithriadol o fagwrus tuag at y plant. Mae'n rheoli eu hymddygiad mewn ffordd effeithiol iawn gan ddefnyddio llais cynnes a thyner, technegau tynnu sylw a chymorth pan fo angen. Clywsom iaith gadarnhaol yn cael ei defnyddio, gan gynnwys atgoffa'r plant yn gyson am foesau a'u canmol yn rheolaidd. Er enghraifft, ar ôl iddynt helpu i dacluso, clywsom y gwarchodwr plant yn dweud "*Well done*" a "*Good job.*" Drwy gydol yr ymweliad, roedd y gwarchodwr plant yn atgoffa'r plant mewn ffordd dyner ac ystyriol i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'. Mae cydberthnasau cryf a naturiol rhwng y gwarchodwr plant â'r plant. Gwelsom y gwarchodwr plant yn dangos hoffter tuag at y plant. Yn ystod cyfnod tawel, roedd y gwarchodwr plant yn treulio amser yn dod i adnabod y plant a oedd yn newydd i'r lleoliad. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau lle roedd y plant yn eistedd ar lin y gwarchodwr plant i wrando ar stori. Mae'r gwarchodwr plant yn eistedd gyda'r plant ac yn ymgysylltu â nhw wrth iddynt chwarae; er enghraifft, pan oedd y plant yn glanhau'r deinosoriaid ac yn ystod gweithgareddau chwarae rôl.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn helaeth. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am ddatblygiad y plant gan ddefnyddio dyddiadur dyddiol i gofnodi'r hyn y mae'r plant wedi bod yn ei wneud, y byrbryddau maent wedi'u bwyta a gwybodaeth eu cwsg. Mae'r rhieni yn dychwelyd y dyddiaduron hyn bob dydd. Caiff anghenion unigol y plant eu diwallu, ac mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth gryf o sut i'w cefnogi. Drwy ddefnyddio proffil 'Amdanaf i' mewn ffordd hynod effeithiol, mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar wybodaeth helaeth am ddiddordebau ac anifeiliaid anwes y plant yn ogystal â gwybodaeth bwysig am fywyd cartref y plant. Mae'n ymwybodol o bwysigrwydd trefn arferol y plant ac mae'n hyrwyddo cyfleoedd chwarae dan arweiniad y plentyn drwy gynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â'r parc lleol ac amwynderau amrywiol, fel y parc peli gerllaw a'r traeth. Mae'r dystiolaeth o'r ymweliadau hyn yn dangos bod gweithgareddau cyffrous yn cael eu cyflwyno i'r plant a'u bod yn cael cynnig cyfleoedd arbennig i brofi amgylcheddau newydd. Defnyddiodd y gwarchodwr plant

Gymraeg achlysurol yn ystod ein hymweliad. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo amrywiaeth drwy gynnal gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys tynnu lluniau Nadoligaidd a dathlu gwyliau crefyddol gwahanol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ei chartref yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da y tu mewn. Mae'n darparu ardal hunangynhwysol sy'n groesawgar ac yn cynnig amgylchedd ysgogol. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o ymwelwyr sy'n dod i'r lleoliad ac yn sicrhau ei fod yn ddiogel. Caiff y drws ffrynt ei gloi ar ôl i'r plant gyrraedd, ac mae giât ddiogelwch arall yn sicrhau na all y plant gyrraedd y drws. Mae'n cynnal ymarferion tân a gwiriadau diogelwch rheolaidd, gan sicrhau y caiff unrhyw beryglon posibl eu monitro a'u lleihau. Mae'r gwarchodwr plant yn goruchwyllo'r plant yn dda ac yn deall y gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau dringo ar ben soffa er mwyn gwyllo'r lori wastraff yn mynd heibio'r tŷ. Mae'n cwblhau asesiadau risg ysgrifenedig addas, ynghyd â gwiriadau gweledol misol a dyddiol.

Mae'r safle yn hunangynhaliol, wedi'i drefnu'n dda ac yn hygyrch. Mae'r ardal yn darparu ystafell chwarae, storfa, toiled â darpariaeth newid cewynnau a chegin fach. Mae'r ystafell chwarae yn olau ac yn cynnwys arddangosfeydd lliwgar. Caiff gwaith celf y plant ei arddangos hefyd. Nid oes gan y lleoliad ardal awyr agored ar hyn o bryd, ond mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant i'r parc lleol a'r traeth yn rheolaidd. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i'r plant archwilio a chwarae yn annibynnol. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi annibyniaeth y plant ymhellach ac yn eu hannog i gymdeithasu drwy ddarparu byrddau a chadeiriau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran ar gyfer gweithgareddau a bwyta byrbrydau. Mae'n trefnu'r lleoliad yn dda ac mae'n cynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae i'r plant sy'n addas ar gyfer pob un o'r ystodau oedran, fwy neu lai. Gall y plant ddefnyddio adnoddau o'r storfa bwrpasol fel y mynnont, ac mae digon o ofod llawr iddynt chwarae. Gallant symud yn rhydd rhwng y gwahanol ardaloedd sydd ar gael. Gallant gyrraedd yr ystafell ymolchi yn hawdd, ac mae'r ystafell yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau diddorol sy'n ehangu cyfleoedd chwarae a datblygu'r plant. Mae cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Er enghraifft, mae basgedi storio lefel isel effeithiol sy'n ei gwneud hi'n hawdd i'r plant gael gafael ar yr adnoddau yn annibynnol. Mae'r basgedi hyn wedi'u labelu â lluniau a geiriau. Mae'r plant yn hyderus i ofyn i'r gwarchodwr plant os na fyddant yn gallu dod o hyd i deganau neu adnoddau neu os na fyddant yn gallu cael gafael arnynt. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn addas, gan ddarparu gweithgareddau a chyfarpar chwarae diddorol a gwerth chweil. Er enghraifft, mae amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae rôl, doliau, llyfrau ac adnoddau synhwyrdd buddiol.

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus iawn ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth llwyddiannus a gwerthfawr. Mae'n ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau o ran sut i wella'r gwasanaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn creu awyrgylch tawel a chadarnhaol yn y lleoliad. Mae'n cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac effeithiol sy'n adlewyrchu'n fedrus y gwasanaeth a ddarperir ac sy'n mynd y tu hwnt i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae gan y gwarchodwr plant bolisiâu gwerth chweil ar waith a gaiff eu hadolygu bob blwyddyn. Wrth drafod â'r gwarchodwr plant, roedd yn cydnabod bod angen gwella rhai o'i pholisiâu. Er enghraifft, ei pholisi Plant Coll a'i pholisi Plant Heb eu Casglu. Mae'n cynnal y cofnodion gofynnol yn drylwyr, gan gynnwys cofrestrau a ffurflenni damweiniau. Mae gan y gwarchodwr plant ddogfennau car cyfredol ac mae wedi'i chofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei gwasanaeth ac yn myfyrio arno bob blwyddyn, ac yn llunio adolygiad pwrpasol o ansawdd y gofal. Fel rhan o'i gwerthusiad, mae'n gofyn am adborth gan y rhieni ddwywaith y flwyddyn ac yn gofyn am adborth gan y plant. Gofynnir i rieni newydd gwblhau holiadur hefyd o fewn mis i gofrestru'r plant. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod y rhieni yn hapus gyda'i phrosesau setlo a'r wybodaeth a rennir. Mae'r wybodaeth a gesglir yn ei helpu i werthuso ei gwasanaeth, gan roi cyfle iddi nodi cryfderau ac ystyried meysydd i'w gwella.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd hyfforddiant a pharhau â'i datblygiad proffesiynol. Mae'n cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol yn effeithiol ac yn chwilio am gyfleoedd pellach i ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol pellach er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion y plant y mae'n gofalu amdanynt. Er enghraifft, mae wrthi'n ymgymryd â hyfforddiant lleferydd ac iaith er mwyn cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gael ar gyfer pob aelod o'r aelwyd, ac mae system ar waith ar gyfer cynnal gwiriadau blynyddol. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n llwyr ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a sefydliadau eraill pan fo angen.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cyfathrebu â phob rhiant a gofalwr mewn ffordd werthfawr a buddiol. Mae'r holl gontractau a ffurflenni caniatâd perthnasol ar waith ganddi ac mae'n cadw'r holl wybodaeth berthnasol i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni bob dydd drwy gyfathrebu ar lafar, drwy negeseuon a thrwy dudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd yn llenwi dyddiadur dyddiol. Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn fodlon iawn ar y lleoliad ac yn ei ganmol. Dywedwyd wrthym, *'she replicates the home setting – gentle but fair,'* *'Claire always listens and provides feedback to suggestions'* a *'The monthly newsletters are brilliant.'* Mae gan y gwarchodwr plant gysylltiadau da â'r rhieni, ac mae bob amser yn ymateb yn gadarnhaol i wybodaeth a chyngor a roddir iddi er mwyn gwella llesiant y plant a

nodi unrhyw anghenion. Pe byddai unrhyw bryderon yn codi am gynnydd neu ddatblygiad plentyn, mae'n sicrhau bod gweithdrefnau clir ar waith i rannu gwybodaeth a darparu cymorth.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol	
Safon	Argymhelliad/argymhellion
Safon 6 - Gweithio mewn partneriaeth â rhieni	Sicrhau bod pob polisi yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu a'i rannu â'r rhieni

Graddau	Ystyr y graddau
Rhagorol	Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 17/05/2024